

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 15: wythnos 26/04/2021

Cynnydd Wythnosol (19 - 26 Ebrill)



Rydym bellach wedi rhoi **463,178** o frechlynnau (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail dds) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd.

Rydym wedi brechu 8 allan o 10 o oedolion 40-49, ac ar hyn o bryd, rydym yn brechu'r rhai sydd rhwng 35 a 39 oed.

Ail ddosau

Os cawsoch eich dos cyntaf o'r brechlyn AstraZeneca rhwng 04/01/2021 a 31/01/2021 ac nad ydych wedi cael llythyr yn eich hysbysu o apwyntiad eich ail dds hyd yn hyn, llenwch y ffurflen ar ein gwefan:

<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/astrazeneca-first-dose-between-04-01-2021-and-31-01-2021-but-not-received-notification-of-second-dose/>

Ar ôl i ni gael y wybodaeth hon, byddwn yn ei gwrio yn erbyn ein cofnodion ac yn eich hysbysu am fanylion apwyntiad eich ail dds.

Dylai'r rheiny a gafodd eu dos cyntaf o'r brechlyn Rhydychen AstraZeneca ddisgwyl eu hail dds 11-12 wythnos wedyn, oni bai bod rhesymau clinigol unigol i ddefnyddio cyfnod byrrach. Peidiwch â chysylltu â ni os cawsoch eich dos cyntaf ar ôl 31/01/2021.

Os na allwch fynychu'ch apwyntiad ar gyfer eich ail dds, cysylltwch drwy rif ffôn y ganolfan drefnu ar eich llythyr apwyntiad.



Diolch o galon

Yr wythnos hon oedd yr wythnos olaf i rai o'n timau Milwrol gynorthwyo yn ein Canolfannau Brechu. Hoffem ddiolch yn fawr iawn iddynt am fod yn rhan o'r tîm brechu ac am eu holl gymorth a chefnogaeth.

FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 26/04/2021)

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail dds)

463,178

Cyfanswm y dos cyntaf 334,021

Cyfanswm yr ail dds 129,157

Pobl 75 oed a'n hŷn



Pobl 70-74 mlwydd oed



Pobl 65-69 mlwydd oed



Grŵp 6 (Agored i Niwed)



Pobl 60-64 mlwydd oed



Pobl 55-59 mlwydd oed



Pobl 50-54 mlwydd oed



Pobl 40-49 mlwydd oed



Brechlyn Covid a beichiogrwydd

Mae'r JCVI wedi diweddarau eu canllawiau ac yn cynghori y dylai merched bechiog gael cynnig y brechlyn Pfizer neu Moderna ar yr un pryd â gweddi ll y boblogaeth, yn seiliedig ar eu hoedran a'u grŵp risg clinigol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.uk/government/news/jcvi-issues-new-advice-on-covid-19-vaccination-for-pregnant-women>

Apwyntiadau

Os ydych yn 40 oed a hŷn ac wedi methu eich apwyntiad ar gyfer dos cyntaf COVID-19, llenwch y ffurflen ar ein gwefan:

<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-40-and-above-and-not-received-your-covid-19-vaccination-appointment/>.

Sicrhewch fod eich manylion yn gyfredol gyda'ch practis meddyg teulu cofrestredig er mwyn i wahoddiadau gael eu hanfon i'r cyfeiriad cywir.

A yw eich manylion yn gyfredol?

Gwnewch yn siŵr bod gan eich practis meddyg teulu eich manylion cyfredol gan gynnwys eich cyfeiriad a rhif ffôn.

Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i'ch gwahodd i gael eich brechiad.



Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn. Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosgwyddo i eraill.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020>

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

Trefn Brechlynnau

80 oed a hŷn	Meddygfeydd Meddyg Teulu
72-79 oed	Canolfannau Brechu Torfol
70-71 oed	Meddygfeydd
Grŵp 4	Meddygfeydd
65-69 oed	Canolfannau Brechu Torfol
60-64 oed	Canolfannau Brechu Torfol
55-59 oed	Canolfannau Brechu Torfol
52-54 oed	Canolfannau Brechu Torfol
50-51 oed	Meddygfeydd
40-49 oed	Canolfannau Brechu Torfol
Yn Gaeth i'r Tŷ	Timau Symudol
Grŵp 6	Meddygfeydd

Cyrhaeddwch yn brydlon

Peidiwch â dod mwy na 5 munud yn gynnar i'ch apwyntiad os gwelwch yn dda. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich prydlondeb ar gyfer eich apwyntiad, gall cyrraedd yn rhy gynnar achosi traffig.

Brechiadau yn ystod cyfnod Ramadan

Nid yw cael eich brechiad yn ystod Ramadan yn cael ei gyfrif fel un sy'n torri'r cyfnod ffasg, gan fod meddyginiaethau wedi'u heithrio.

Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://english.alarabiya.net/coronavirus/2021/03/04/Coronavirus-COVID-19-vaccine-does-not-break-Ramadan-fast-UK-Muslim-medical-experts-urge>